EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 131 - Llefaru Unigol Bl 10 a dan 19 oed
Gwyrddni – Grahame Davies

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

GWYRDDNI

Mae newydd fy nharo.
'Dwi ddim yn eu deall, y geiriau cyfarwydd hyn:
masarnen, banadl, ysgawen,
briallu Mai, cerddinen,
a chymaint o rai tebyg y deuwn ar eu traws
yng ngerddi cydwladwyr.

Peidiwch â 'nghamddeall;
nid problem iaith yw hon;
mi wn mai planhigion neu goed yw'r rhain,
darllenais y geiriau droeon
mewn cerdd neu ysgrif.

Ond dyna'r pwynt:
eu darllen yn unig.
A welais gerddinen erioed?
'Dwn i ddim.
A ydw i wedi arogli banadl?
O bosib;
ond ni wn i sut mae'n edrych hyd yn oed.
Neu gyffwrdd â rhisgl masarnen?
Ni fyddwn yn 'nabod un pe bai'n cwympo arnaf.

Nid bod peryg o hynny yn ein cwm ni;
nid yw'r fandaliaid lleol
yn gadael i unrhyw goeden
dyfu yn uwch na nhw.

Ond mae tyfiant yma, oes:
gwellt yng nghraciau'r erwau concrid
lle safodd y gwaith haearn;
glaswellt byr y parc,
a'i sawr ar bnawniau segur yr haf
yn gymysg â hoglau baw cŵn;
a'r hirsgwar bach twt o lawnt newydd
tu fas i unedau gloyw y stad ddiwydiannol wag,
yn frown fel amlen budd-dal.

Mae gwyrddni wedi hen gilio
i gyrion fy myd,
a'i eirfa gydag ef;
rhimyn o flerwch ar hyd ffordd osgoi;
rhywbeth i yrru drwyddo o dref i dref
yw natur i mi.
Dirgelion dienw yng nghilfachau'r cof,
chwyn anhysbys ar lan y nant anghofiedig
sy'n rhedeg mewn cwlfert cul
yng nghefnau'r tai
drwy'r dref.

URDD GOBAITH CYMRU